**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/2496/22

John Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
seneddhousing@senedd.cymru

3 Awst 2022

Annwyl John,

Diolch am lythyr y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai dyddiedig 13 Gorffennaf ac am ymrwymiad y Pwyllgor i barhau i fonitro ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng dyngarol yn Wcráin a dyfodiad pobl o Wcráin i Gymru.

Byddwn yn croesawu cyfle i ymddangos o flaen y Pwyllgor maes o law. Roeddwn yn falch o ddarllen fod y tystion yn gefnogol ar y cyfan i'n hymateb hyd yma - ymateb Tîm Cymru fu hwn, a byddwn yn parhau i lynu at y dull hwn yn yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

Gallaf gadarnhau y byddwn yn rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r trydydd sector, a'n partneriaid allweddol i gyd, am unrhyw newid i'n cynllun uwch-noddwr. Rydym wedi adolygu ein safbwynt eto a byddwn yn cynnal y saib ar geisiadau newydd tan fis Medi. Rwyf wedi nodi hyn mewn datganiad ysgrifenedig.

Byddwch yn ymwybodol fod Llywodraeth yr Alban hefyd wedi oedi ei chynllun uwch-noddwr, gan gymryd agwedd debyg i ni - er mwyn canolbwyntio ar sicrhau bod gan bawb sydd wedi cael fisa lety o ansawdd da a chymorth cofleidiol pan gyrhaeddant.

Rwy'n troi'n awr at y materion sylweddol y mae'r pwyllgor wedi'u codi yn eich llythyr.

Mae'r Swyddfa Gartref yn cyhoeddi data'n wythnosol am bobl o Wcráin sy'n cyrraedd Cymru. Ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, mae 4,447 o Wcrainiaid a noddir gan Lywodraeth Cymru neu aelwydydd yng Nghymru wedi cyrraedd y DU – mae dros 2,079 o bobl wedi cyrraedd drwy'r cynllun uwch-noddwr, sydd ddwywaith y 1,000 o bobl y gwnaethom ymrwymo i'w cefnogi ar y cychwyn. Mae'r wybodaeth ar gael yma (yn Saesneg yn unig): https://www.gov.uk/guidance/ukraine-sponsorship-scheme-visa-data-by-country-upper-and-lower-tier-local-authority

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae darparu amserlen ar gyfer pryd y bydd gweddill y rhai â fisa yn cyrraedd Cymru yn her, oherwydd bydd pob unigolyn neu deulu yn gwneud ei benderfyniad ei hun ynghylch pryd y byddant yn dymuno teithio, ar sail eu sefyllfa'u hunain.

Mae ein Canolfan Gyswllt ar gyfer Cymru: Cenedl Noddfa wedi bod yn cysylltu â phawb fydd yn manteisio ar y cynllun uwch-noddwr i drafod eu cynlluniau teithio. Mae'r wybodaeth y mae hyn yn ei chynnig yn help at ddibenion cynllunio ond, yn anochel, nid yw'n gyflawn gan nad oes modd cysylltu â phob unigolyn ac nid yw pawb yn barod i drafod cynlluniau teithio. Yn ogystal, mae cynlluniau'n newid o ystyried y sefyllfa ddeinamig yn Wcráin. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu model sy'n dangos trywydd pobl sy'n debygol o gyrraedd.

Ar gyfradd fras, mae 25 o bobl yn cyrraedd bob dydd. Mae'r gwaith modelu yn awgrymu y gallai nifer yr ymgeiswyr i'r cynllun uwch-noddwr sy'n cyrraedd Cymru leihau'n sylweddol tuag at ddiwedd 2022.

Gallaf gadarnhau na fydd pobl o Wcráin sydd wedi eu gosod mewn llety cyntaf a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru - boed hynny mewn canolfan groeso neu mewn math arall o lety, fel gwesty neu neuadd breswyl - yn cael eu symud ymlaen gennym ni i'w llety terfynol hyd nes y bydd gwiriadau wedi'u cynnal ar y lleoliad ac unrhyw bobl sy'n cynnig y llety.

Fodd bynnag, ni allwn warantu y bydd hyn yn wir am y bobl hynny sy'n cyrraedd o dan y cynllun i unigolion, Cartrefi i Wcráin oherwydd nad yw'r amserlenni dan sylw bob amser yn galluogi awdurdodau lleol i gynnal a chwblhau'r holl wiriadau cyn i'r person o Wcráin gyrraedd. Dyma'r ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi cynllunio'r cynllun Cartrefi i Wcráin.

Nawr mae Llywodraeth y DU wedi dechrau prosesu ceisiadau Cartrefi i Wcráin ar gyfer plant a phobl ifanc dan 18 oed sydd un ai ar eu pen eu hunain neu'n teithio gyda pherthynas sy'n oedolyn, ond nad yw'n rhiant iddyn nhw nac yn warchodwr cyfreithiol. Bydd y plant a'r bobl ifanc hynny oedd eisoes â cheisiadau yn y system yn cael prosesu eu fisas yn gyntaf. Bydd modd cyflwyno ceisiadau newydd gan blant a phobl ifanc o ganol mis Awst.

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol yng Nghymru a chydweithwyr cyfatebol yng nghenhedloedd eraill y DU i sicrhau bod y cynllun hwn yn gweithio'n effeithiol a bod ystyriaethau diogelu yn cael blaenoriaeth ddyledus. Yn anffodus, ni allwn symud ymlaen â cheisiadau gan blant ar eu pen eu hunain i'n llwybr uwch-noddwr oherwydd bod anghenion llesiant y plant hyn yn gofyn am opsiynau cychwynnol a therfynol a gynlluniwyd yn ofalus, ac nid oedd hyn wedi'u cynnwys wrth ddylunio ein darpariaeth bresennol. Rydym wrthi'n datblygu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

Rwy'n cwrdd bob pythefnos â'r Arglwydd Harrington, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Ffoaduriaid a Neil Gray ASA, y Gweinidog Albanaidd sydd â chyfrifoldeb dros yr ymateb i sefyllfa'r Wcráin, ac rwy'n parhau i godi'r dull gweithredu anghyson y mae Llywodraeth y DU wedi'i ddefnyddio mewn perthynas â'i Chynllun Teuluoedd o Wcráin.

Rwy'n parhau i bwyso am gydraddoldeb cyllid rhwng y cynlluniau Cartrefi i Wcráin a Theuluoedd o Wcráin, a thros gael yr un data o ran y rhai sydd wedi cyrraedd Cymru o dan y cynllun teuluoedd. Nid yw hyn wedi digwydd. Mae'r Prif Weinidog sydd ar ei ffordd allan, wedi ymrwymo i'w gwneud yn bosibl i newid rhwng cynlluniau, ond mae'n ymddangos bod rhoi hynny ar waith gryn amser i ffwrdd ar hyn o bryd.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu taliadau "diolch" i'r sawl i'r sawl sy'n cynnig llety newydd i'r rheini y mae eu llety cyntaf o dan Gynllun Teuluoedd o Wcráin wedi dod i ben. Rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol gytuno ar y lleoliadau eilaidd hyn er mwyn gallu darparu cyllid.


Fel gyda phob deiliad fisa arall o Wcráin, bydd yr arian ar gael am y 12 mis cyntaf ar ôl i fisas gael eu caniatáu.

Yn ddiweddar rydym wedi lansio ymgyrch newydd i annog mwy o bobl a landlordiaid i gynnig llety i bobl o Wcráin. Bydd hyn yn helpu'r broses o symud ymlaen o ganolfannau croeso ac yn helpu i sicrhau bod gennym gronfa o bobl a allent gynnig llety wrth i ni nesáu at y garreg filltir chwe mis ers dechrau cynllun Cartrefi i Wcráin. Byddwn yn gwerthfawrogi pe bai aelodau'r pwyllgor yn gallu cefnogi ein hymdrechion i hyrwyddo'r ymgyrch hon yn eu hetholaethau. Ceir rhagor o wybodaeth yn: https://llyw.cymru/cynnig-cartref-yng-nghymru-i-ffoaduriaid-o-wcrain

Mae gan ddeiliaid fisa o Wcráin yr hawl i symud yn rhydd o fewn y DU a bydd llawer yn dymuno symud rhwng cenhedloedd y DU. Ni fu erioed rwystr i Wcrainiaid rhag symud fel hyn. Fodd bynnag, mae angen i ni weithio gyda chenhedloedd eraill y DU i sicrhau, pan fydd symud o'r fath yn digwydd, bod y cyllid yn dilyn yr unigolyn i wneud taliadau 'diolch' yn bosibl ac i alluogi darparu'r tariff am wasanaethau cyhoeddus. Gallwn gadarnhau fod proses wedi'i sefydlu i ganiatáu i hyn ddigwydd, ond mae gofyn i'r awdurdod lleol sy'n derbyn fod wedi cytuno'n ffurfiol i'r ail-baru yn eu hardal nhw.

Rydym wedi darparu canllawiau i awdurdodau lleol Cymru i esbonio'r prosesau cysylltiedig a byddwn yn diweddaru'r wefan Noddfa a'n canllawiau i noddwyr/pobl sy'n cynnig llety.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice